**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 12-00(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 14 Medi 2000 |
| **Amser:** | 2.00pm - 4.20pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| Yn bresennol | |
| *Aelodau* | |
| Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Brian Hancock, yn cymryd lle Janet Davies | Islwyn |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| *Nautilus Consultants Ltd* | |
| Crick Carleton | |
| *Ymgynghorydd Arbennig* | |
| Yr Athro Terry Marsden | |
| *Swyddogion* | |
| Steve Nicholls (eitem 3) | Is-Adran Rheoli CAP |
| Mike Dunn (eitem 2, 4 a 5) | Pennaeth, Is-Adran Polisi Amaethyddol |
| Jeanne Hazel (eitem 4) | Is-Adran Polisi Amaethyddol |
| Glyn Perryman (eitem 5) | Is-Adran Polisi Amaethyddol |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau ac amnewidiadau a datganiadau o ddiddordeb

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Carwyn Jones a Delyth Evans i'r Pwyllgor yn eu swyddogaethau newydd fel yr Ysgrifennydd Cynulliad a'r Dirprwy Ysgrifennydd. Cafwyd ymddiheuriadau gan Christine Gwyther. Talodd y Cadeirydd deyrnged i waith Christine Gwyther fel yr Ysgrifennydd Cynulliad yn ystod blwyddyn gyntaf y Pwyllgor. Croesawodd Brian Hancock hefyd i'r cyfarfod, a oedd yn cymryd lle

Janet Davies.

1.2 Gofynnodd i'r Aelodau ddatgan unrhyw ddiddordebau a oedd yn berthnasol i'r cyfarfod. Dywedodd Peter Rogers ei fod yn ffermwr, Mike Bates ei fod yn bartner mewn busnes ffermio ac Elin Jones fod ganddi ddiddordeb anuniongyrchol mewn busnes ffermio.

**Eitem 2: Adroddiad yr Ysgrifennydd Cynulliad** - ARD 12-00(p5)

2.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Ysgrifennydd Cynulliad i gyflwyno ei adroddiad.

2.3 Cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y Pwyllgor at ei adroddiad ysgrifenedig a dywedodd ei fod yn bwriadu cyflwyno papurau tebyg i gyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf ar y cynllun Tir Mynydd a oedd i'w ystyried gan Bwyllgor Star y Comisiwn Ewropeaidd ar 20 Medi.

2.4 Cynigiodd yr Ysgrifennydd Cynulliad wneud dau newid i'r cynllun a oedd i'w gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd. Nod y cyntaf oedd rhoi mwy o sicrwydd i ffermwyr yngln â'u taliadau o dan y cynllun newydd trwy gryfhau'r elfen o ddiogelwch yn y flwyddyn gyntaf. Cynigodd y dylai'r elfen o ddiogelwch gael ei chryfhau er mwyn sicrhau y byddai ffermwyr a oedd yn debyg o golli allan o dan y cynllun newydd yn cael o leiaf 90% o'r gwahaniaeth rhwng eu hawl o dan y cynllun newydd a'r cyfanswm yr oeddent wedi ei dderbyn mewn gwirionedd yn ystod Gwanwyn 2000. Byddai hwn yn cael ei ariannu'n rhannol trwy leihau cyfran y gyllideb a ddyrennir i Elfen 2 o 10% i 5% in 2001-2002.

2.5 Roedd y mater arall a drafodwyd yn ymwneud â dwyseddau stocio. O dan y cynigion diwygiedig, yn hytrach nag arwain at gyflwyno cosbau uniongyrchol, byddai tystiolaeth o or-bori yn cychwyn arolygiad a byddai gan y ffermwr un flwyddyn i unioni'r sefyllfa cyn gosod unrhyw gosbau. Y terfyn arfaethedig ar gyfer dwyseddau stocio oedd 1.8 o unedau da byw fesul hectar. Roedd y ddau newid arfaethedig yn amodol ar sêl bendith y Comisiwn.

2.6 Wrth drafod, codwyd y pwyntiau canlynol:

- gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cynulliad beth oedd goblygiadau newid y cydbwysedd rhwng elfen 1 a 2, yn arbennig i'r ffermwyr hynny a fyddai wedi bod ar eu hennill o dan elfen 2. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad mai'r nod oedd cynyddu sicrwydd. Gellid cyflwyno cynllun enghreifftiol ar effaith y newidiadau;
- byddai symud at daliadau yn seiliedig ar ardal yn cynyddu nifer y ffermydd a allai wneud cais am Dir Mynydd a gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cynulliad ym mha fodd y byddai hyn yn effeithio ar daliadau i ffermwyr unigol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad fod y cynllun enghreifftiol wedi bod yn rhy ofalus er mwyn caniatáu hyn. Byddai datblygu System Gwybodaeth Ddaearyddol yn caniatáu iddynt dargedu'r cynllun yn well yn y dyfodol;
- roedd y terfyn dwysedd stocio arfaethedig yn is na'r disgwyl a gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cynulliad pam y cynigiwyd ei osod ar y lefel honno. Nodwyd hefyd bod y tywydd yn cael effaith

sylweddol ar borfa uwchdir ac roedd angen ystyried hyn wrth asesu gor-bori. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad eu bod wedi gosod y terfyn stocio arfaethedig ar y lefel uchaf a fyddai'n debygol o fod yn dderbyniol i'r Comisiwn. Roedd y terfyn yn llai arwyddocaol nag y bu o'r blaen, fodd bynnag, oherwydd ni fyddai gor-bori bellach yn arwain yn uniongyrchol at gosbau. Gobeithiai y byddai'n bosibl datblygu cyfarwyddyd hyblyg i asesu gor-bori a fyddai'n cwrdd â'r amodau yng Nghymru.

2.7 Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad eu bod yn ystyried ffurf y cynllun ar ôl 2003, gan gofio'r ffaith eu bod yn symud yn barhaus oddi wrth gymorthdaliadau cynhyrchu. Croesawyd hyn yn gyffredinol. Codwyd y pwynt y dylid datblygu'r cynllun dilynol trwy gydweithrediad agos â Brwsel. Cafwyd apêl hefyd i ystyried unedau llafur.

2.8 Yna trodd y Pwyllgor ei sylw at adroddiad ysgrifenedig yr Ysgrifennydd Cynulliad. Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod;

- gofynnwyd am wybodaeth ar effaith y trothwy diwygiedig am geisiadau Tir Gofal ar y nifer, maint a'r math o ffermydd a dderbyniwyd. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y byddai'r manylion yn cael eu darparu:
- gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cynulliad beth oedd yn cael ei wneud i ddarbwyllo'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MOD) i brynu cig Cymreig. Dywedodd fod undebau'r amaethwyr wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda'r MOD a'i fod yn eu cefnogi. Roedd wedi ysgrifennu at yr MOD yn gofyn am gyfarfod;
- gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cynulliad a oedd ffermwyr yn derbyn cyngor priodol a defnyddiol o Linell Gymorth y Ffermwyr. Dywedodd Carwyn Jones nad oedd yn ymwybodol o unrhyw fethiannau ond cytunodd fod angen monitro'r gwasanaeth yn ofalus er effeithiolrwydd;
- o dan y cynigion gwreiddiol byddai'r Cwmni Cig Cymreig wedi gallu cael cyfle i fanteisio ar arian cyfatebol. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd Cynulliad a fyddai arian cyfatebol ar gael ar gyfer y cynigion amgen. Dywedodd nad oedd yn ymwybodol bod y sefyllfa wedi newid;
- roedd y sector ffermio llaeth yn dal i wynebu amodau anodd a gofynnwyd am adroddiad ar ganlyniad y cyfarfodydd gyda'r archfarchnadoedd. Dywedodd y Cadeirydd iddo fod yn bresennol yn y cyfarfodydd. Cafwyd neges gymysg wrth yr archfarchnadoedd a byddai'n trafod gyda'r Ysgrifennydd Cynulliad ac yn darparu adroddiad i'r Pwyllgor;
- nodwyd bod arwyddion y gallai gostyngiad mewn cyflenwad llaeth arwain rhai archfarchnadoedd i godi'r pris a delir i gynhyrchwyr.
- gofynnwyd am eglurhad o safbwynt y gyfraith ar y cnwd GM a oedd yn cael ei dyfu yn Sir y Fflint. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad fod cyfarfod yn cael ei gynnal yn Sealand y noson honno. Codwyd nifer o bwyntiau yr oedd angen eu hystyried felly bu'n rhaid tynnu Rheoliadau (Rhestr Amrywiaethau Cenedlaethol) Hadau yn ôl o'r drafodaeth yn y cyfarfod Llawn yn gynharach y diwrnod hwnnw. Fodd bynnag roedd yn bwysig gosod y rheoliadau yn eu lle a byddai angen i'r Cynulliad eu hystyried yn gynnar ym mis Hydref.

2.9 Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad wrth y Pwyllgor ei fod yn bwriadu dod â phapurau ar y mecanweithiau apelio annibynnol a datganiad gweledigaeth ar ddyfodol hir dymor amaethyddiaeth yng

Nghymru i'r cyfarfod ar 11 Hydref. Diolchodd y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd Cynulliad a dywedodd fod y sesiwn wedi bod yn ddefnyddiol.

*Pwyntiau gweithredu*

2.10 Angen paratoi'r adroddiad ar ganlyniad y cyfarfodydd gyda'r archfarchnadoedd ar gyfer y Pwyllgor. (Ceir copi o'r nodyn a ddarparwyd yn Atodiad 1) – **yr Ysgrifennydd Cynulliad a'r Cadeirydd**

2.11 Dadansoddiad o faint y ffermydd a'r math a dderbynnir ar gyfer y cynllun Tir Gofal o dan y trefniadau trothwy diwygiedig – **yr Ysgrifennydd Cynulliad**

2.12 Angen darparu cynllun enghreifftiol ar effaith cryfhau'r elfen o ddiogelwch trwy leihau elfen 2 i 5% ar daliadau o dan Tir Mynydd – **yr Ysgrifennydd Cynulliad**

**Eitem 3: Adroddiad yr Ombwdsman a'r Ymateb** - ARD 12-00(p1)

3.1 Dywedodd y Cadeirydd y gofynnwyd i'r Pwyllgor, o dan reol sefydlog 21, ystyried tri adroddiad gan yr Ombwdsman dros Weinyddiaeth yng Nghymru. Swyddogaeth y Pwyllgor oedd ystyried y cynigion arfaethedig gan y Prif Ysgrifennydd, a ellid dysgu unrhyw wersi ehangach o'r cwynion, ac a ydynt yn cael eu dilyn yn briodol. Croesawodd Steve Nicholls i'r cyfarfod. Amlinellodd Steve Nicholls yr achosion yn fyr a dywedodd fod yr Ombwdsman wedi nodi ei fod yn fodlon gyda'r camau adferol a gymerwyd ym mhob achos.

3.2 Roedd Achos R.31/99-00 yn ymwneud â diddymu partneriaeth a'r oedi dilynol wrth dalu'r cymhorthdal. Mynegwyd y dylai fod gan y Cynulliad fecanwaith i ymdrin ag achosion o'r fath. Nododd y Pwyllgor fod hyn yn cael ei ystyried ond roedd achos o'r math yma yn dod ag anawsterau arbennig yn eu sgîl oherwydd y gwahaniaethau yn y diffiniadau a ddefnyddir o dan reoliadau Ewropeaidd. Er hyn, roeddent yn cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd.

3.3 Oherwydd ei swyddogaeth, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi pe baent yn cael gwybodaeth fwy diweddar ar ddatblygiadau arwyddocaol. Cytunwyd ar yr ymatebion arfaethedig yn atodiadau 3, 6 a 9.

**Eitem 4: Costau Archwilio Cig -** ARD 12-00(p2)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd Jeanne Hazel i'r cyfarfod a dywedodd y gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried adroddiad ac argymhellion Tasglu'r Costau Archwilio Cig. Croesawyd yr adroddiad yn gyffredinol. Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- cafwyd siom nad oedd unrhyw ddarpiaeth i gwrdd â chostau taliadau archwilio yn y cyllidebau amaethyddol. Eglurodd yr Ysgrifennydd Cynulliad eu bod yn ystyried darparu arian at hyn ond

roedd y rownd gyllidol yn barhaus ac nid oedd yn gallu bod yn fwy penodol ar hyn o bryd. Roedd angen ystyried mater cymorth gwladol hefyd ac roedd yn bwriadu ceisio cael cyngor cyfreithiol;

- roedd lladd-dai bychain yn chwarae rhan bwysig o fewn amaethyddiaeth gynaliadwy ond roedd y niferoedd yng Nghymru yn disgyn. Nid oedd yn gywir hawlio eu bod yn gweithredu mewn marchnad niche fel yr ymddengys bod paragraff 7 o'r papur yn ei nodi. Cytunodd yr Ysgrifennydd Cynulliad fod gan ladd-dai bychain swyddogaeth bwysig ac ychwanegodd mai dim ond un rhan o'u swyddogaeth oedd cynnyrch niche.

4.2 Anogwyd yr Ysgrifennydd Cynulliad i dderbyn argymhellion yr adroddiad a dod o hyd i'r cyllid angenrheidiol. Dywedodd Carwyn Jones ei fod yn derbyn egwyddor yr adroddiad ond bod angen rhoi ystyriaeth fanwl i ariannu'r argymhellion a'u cyfreithlondeb os byddai Cymru yn mabwysiadu cyfundrefn wahanol i Loegr.

**Eitem 5: Ymchwil Pysgodfeydd** - ARD 12-00(p3)

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Crick Carleton, Rheolwr - Gyfarwyddwr Nautilus Consultants Ltd. a oedd yn arwain y tîm astudio. Rhoddodd Crick Carleton grynodeb byr o brif bwyntiau'r adroddiad. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad fod pysgodfeydd yn sector pwysig nad oedd yn cael ei amlygu i'r eithaf.

5.2 Wrth drafod, codwyd y pwyntiau canlynol:

- gofynnwyd i Crick Carleton a oeddent wedi ystyried lleoli'r ddau sefydliad newydd arfaethedig o fewn Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) er mwyn manteisio ar y strwythurau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Dywedodd ei fod yn bwysig bod Pysgota Môr Cymru o dan reolaeth y Cynulliad a byddai'n synhwyrol ei ychwanegu at strwythurau a oedd yn bodoli'n barod fel y WDA. Roedd Pysgota Cymru yn estyniad o waith a wnaed gan Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru ond roedd angen creu cysylltiadau gyda Bwrdd Croeso Cymru;
- roedd angen archwilio strwythur a pherthynas y ddau bwyllgor pysgota môr gyda'r Cynulliad. Dywedodd yr Ysgrifennydd Cynulliad y byddai swyddogion y Cynulliad a'r Weinyddiaeth Pysgodfeydd Amaethyddiaeth a Bwyd yn cwrdd yn fuan i drafod strwythur a dull ariannu'r Pwyllgorau;
- gofynnwyd i Crick Carleton a gynhaliwyd ymgynghoriad cynhwysfawr wrth baratoi'r adroddiad. Nododd y Pwyllgor eu bod wedi cysylltu â nifer o gyrff allweddol ond bwriadwyd cynnal ymgynghoriad ehangach ar yr adroddiad terfynol;
- ystyried lefel y buddsoddiad, roedd yr allbynnau a broffwydwyd yn ymddangos yn geidwadol a gofynnwyd i Crick Carleton am ei farn. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod llawer o'r buddsoddiad arfaethedig ar gyfer gwelliannau seilwaith i gynefin a phorthladdoedd bychain a safleoedd lansio na fyddai'n arwain yn uniongyrchol at gyflogaeth;
- roedd yr adroddiad yn gosod pwyslais ar ddarparu cyngor busnes yn hytrach na buddsoddiad cyfalaf yn enwedig yn y sector pysgota môr. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos fel pe bai angen buddsoddi mewn cychod pysgota yng Nghymru. Dywedodd Crick Carleton fod y rhan fwyaf o'r

fflyd o gychod alldraeth o dan berchnogaeth dramor ac anfonwyd y rhan fwyaf o’r pysgod yn syth i farchnadoedd tramor. Prin oedd y cyfleodd ar gyfer prosesu lleol. Gellid rhoi cefnogaeth i fentrau ymarferol;

- gofynnwyd i Crick Carleton a gynhaliwyd trafodaethau gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) yngln â’r cysylltiad â datblygiad cynaliadwy. Dywedodd Crick Carleton y cynhaliwyd trafodaethau gyda CCGC a bod yna berthynas amlwg rhwng pysgodfeydd, amgylchedd o safon uchel a datblygiad cynaliadwy;

- roedd yn ymddangos fel pe bai cryn botensial i gysylltu pysgota adloniadol gyda gwyliau byr a thwristiaeth amgylcheddol. Dywedodd Crick Carleton fod cyfleoedd enfawr yn y sector adloniadol ond prin oedd y pecynnau twristiaeth a oedd ar gael. Trwy weithio gyda Bwrdd Croeso Cymru, gellid rhoi gwelliannau ar waith yn gyflym ac yn hawdd.

5.3 Cytunodd y Pwyllgor y dylid dod â’r adroddiad i sylw’r Pwyllgorau Datblygu Economaidd a’r Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.

*Pwyntiau gweithredu*

5.4 Anfon copïau o’r adroddiad Pysgodfeydd at Gadeiryddion y Pwyllgorau Datblygu Economaidd a’r Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth - **Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 6: Arolwg Arallgyfeirio** - ARD 12-00(p4)

6.1 Croesawodd y Cadeirydd Terry Marsden i’r cyfarfod. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod gan Terry Marsden, Yr Athro dros Polisi Amgylcheddol a Chynllunio a Phennaeth yr Adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol ym Mhrifysgol Caerdydd, hanes hir o ymchwil ar yr economi wledig.

6.2 Swyddogaeth Terry Marsden oedd cynnig cyngor annibynnol i’r Pwyllgor yn gyffredinol ar gyfeiriad yr arolwg a’r mathau o gwestiynau posibl, er mwyn helpu i ddadansoddi’r wybodaeth a gyflwynir i’r Pwyllgor, helpu’r Pwyllgor gyda’i drafodaethau a helpu’r Clerc i ddrafftio’r adroddiad terfynol. Gofynnwyd i’r Aelodau gysylltu ag ef drwy’r Clerc.

6.3 Amlinellodd Terry Marsden y ffordd o feddwl y tu ôl i’r ymagwedd a’r amserlen ar gyfer yr arolwg a amlinellwyd yn y papur. Dywedodd y byddai’n arbennig o bwysig cysylltu â Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol ac arolwg cymorth busnes y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ystod cam nesaf yr arolwg a fyddai’n edrych ar fynediad i gymorth a chyngor cyfalaf a busnes. Dywedodd y Cadeirydd y byddent yn estyn gwahoddiad i Gadeirydd ac aelodau’r pwyllgor Datblygu Economaidd fynychu sesiynau perthnasol. Byddai Anne Watkin, o’r WDA hefyd yn cael ei gwahodd i fynychu sesiynau perthnasol. Cytunodd y Pwyllgor ar yr amserlen a amlinellwyd yn y papur.

6.4 Dywedodd y Cadeirydd fod amserlen y Pwyllgor yn caniatáu ar gyfer cyfarfod ychwanegol ar 2 Tachwedd. Cytunwyd y byddid yn gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Busnes i ddefnyddio’r amser hwn ar

gyfer yr arolwg os byddai angen. Roeddent o’r farn nad oedd ymweliad arfaethedig i ystâd Llyn Efyrnwy yn bosibl brynhawn dydd Iau. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor y dylid trafod dyddiadau ar gyfer ymweliad â Llyn Efyrnwy oherwydd byddai hyn yn cysylltu’n dda â’r arolwg a chyfrifoldebau datblygiad cynaliadwy’r Pwyllgor.

*Pwyntiau gweithredu*

6.5 Gofyn am ganiatâd y Pwyllgor Busnes i gael cyfarfod ychwanegol ddydd Iau 2 Tachwedd - **Cadeirydd a’r Ysgrifenyddiaeth**

6.6 Trafod dyddiadau ar gyfer ymweliad posibl i Lyn Efyrnwy - **Ysgrifenyddiaeth**

6.7 Estyn gwahoddiad i Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd fynychu cyfarfodydd pan drafodir mynediad i gyngor a chymorth cyfalaf a busnes - **Cadeirydd a’r Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 7: Penodiadau cyhoeddus**

7.1 Dywedodd y Cadeirydd, yr enwebwyd Ieuan Wyn Jones a Karen Sinclair fel dau gynrychiolydd o’r Pwyllgor ym Mehefin 1999 er mwyn ystyried penodiadau cyhoeddus. Yn dilyn ymadawiad Ieuan Wyn Jones o’r pwyllgor, roedd angen i rywun gymryd ei le a gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau.

7.2 Enwebodd Mick Bates Rhodri Glyn Thomas. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill a chytunwyd y dylai Rhodri Glyn Thomas gymryd lle Ieuan Wyn Jones fel un o gynrychiolwyr y Pwyllgor i ystyried penodiadau cyhoeddus.

**Eitem 8: Cofnodion cyfarfod 5 Gorffennaf** - ARD 11-00(min)

8.1 Gofynnwyd i’r Pwyllgor dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2000.

8.2 Roedd Karen Sinclair wedi codi mater costau teithio gwledig yn y cyfarfod blaenorol ac roedd y protestiadau presennol yngln â chostau uchel tanwydd yn amlygu’r anawsterau y mae cymunedau gwledig yn eu hwynebu. Dylai’r Pwyllgor ystyried hyn cyn gynted â phosibl. Ar ôl peth trafod cytunwyd na fyddai’n briodol trafod effaith costau tanwydd nes bod yr argyfwng presennol wedi dod i ben ac y gellid ystyried y mater fel rhan o’r arolwg arallgyfeirio.

8.3 Yna derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 5 Gorffennaf.

*Pwyntiau gweithredu*

8.4 Angen ehangu’r gwaith o ystyried materion trafnidiaeth o dan yr arolwg arallgyfeirio i gynnwys effaith costau tanwydd ar yr economi wledig - **Ysgrifenyddiaeth a’r Ymgynghorydd Arbenigol**

**Atodiad 1**

**NODYN AR GYFER Y PWYLLGOR MATERION GWLEDIG – CYFARFODYDD GYDA'R ARCHFARCHNADOEDD A'R CWMNÏAU LLAETH**

Yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, cynhaliodd Christine Gwyther AC, yr Ysgrifennydd dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, gyfres o gyfarfodydd ar y cyd â Rhodri Glyn Thomas AC, a oedd y pryd hwnnw yn Gadeirydd y Pwyllgor, gyda chyfarwyddwyr tri o'r prif archfarchnadoedd sy'n gweithredu yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, cyfarfu Ms Gwyther a Mr Thomas ag un o'r cwmnïau prosesu llaeth mwyaf sy'n gweithredu yng Nghymru.

Diben y cyfarfodydd oedd trafod y materion a godai o'r argyfwng yn y diwydiant llaeth gyda sampl cynrychiadol o'r cwmnïau sy'n gweithredu yn y sectorau manwerthu a llaeth, a hynny fel rhan o ddialog parhaus a gynhelir gyda hwy. Roedd y rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â phrisio ac elw mewn cynhyrchu, prosesu a manwerthu llaeth. Yn ogystal â hyn, ystyriwyd beth y gellid ei wneud i leddfu'r sefyllfa a thrafodwyd y Cod Ymarfer ar berthynas archfarchnadoedd gyda'r gadwyn gyflenwi, a gynhyrchwyd gan yr Institute of Grocery Distribution.

Roedd y cyfarfodydd yn ddefnyddiol i adeiladu ar berthynas weithio'r Cynulliad gyda'r cwmnïau hyn, i'w gwneud yn ymwybodol o'r problemau penodol sy'n wynebu'r sector llaeth yng Nghymru. Roedd pob un o'r cwmnïau yn cydnabod y materion a godwyd, a chytunwyd y byddent yn ystyried anghenion prynwyr a ffermwyr fel ei gilydd wrth bennu eu polisïau prisio. Yn ogystal â hyn, fe wnaethant gadarnhau eu cefnogaeth i God Ymarfer arfaethedig yr IGD, sy'n gosod sail ar gyfer gwell perthynas a mwy o gydbwysedd yn y grym negodi sydd gan wahanol rannau'r gadwyn gyflenwi.

Ers y cyfarfodydd cychwynnol, cafwyd y datblygiadau canlynol:

- Mae Carwyn Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, wedi croesawu argymhelliad y Comisiwn Cystadleuaeth y dylid datblygu cod ymddygiad gorfodol ar gyfer y diwydiant, gan adeiladu ar god gwirfoddol yr Institute of Grocery Distribution, er mwyn amddiffyn buddiannau cynhyrchwyr a gwella'r berthynas rhwng gwahanol elfennau'r gadwyn gyflenwi bwyd;
- Gan fod pryderon y gymuned ffermio yng Nghymru yn ffactor arwyddocaol yn y penderfyniad gwreiddiol i gyfeirio'r sector archfarchnadoedd at y Comisiwn Cystadleuaeth, mae'r Gweinidog wedi ysgrifennu at y Gwir Anrhydeddus Stephen Byers, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant. Byrdwn ei neges oedd ceisio cyfle i fynd ag arweinwyr undebau ffermio Cymru i gyfarfod yr Ysgrifennydd Gwladol i drafod y materion hyn, a thrafod ffyrdd y gall y cyrff cynhyrchu a phrosesu gyfrannu er mwyn helpu i lunio'r Cod Ymarfer y mae'r Swyddfa Masnach Deg yn ei drafftio;
- Dairy Crset yw prynwr llaeth amrwd unigol, mwyaf y DU, ac mae unigate wedi dod i'w feddiant

erbyn hyn hefyd. Ym mis Hydref, cytunodd i gynnig 2 geiniog ychwanegol y litr i gynhyrchwyr am eu llaeth, gan godi'r pris i 18 ceiniog y litr. Gwnaed hyn yn bosibl oherwydd i bedair archfarchnad fawr, sef Sainsbury, Safway, Tesco ac Asda gytuno i gyllido elfen ychwanegol i gynhyrchwyr yn y pris y maent yn ei dalu am laeth hylif i'w werthu;

- Ar hyn o bryd, mae cynhyrchiant llaeth yn y DU tua 3.6% o dan y cwota. Mae hyn yn arwain at brinder llaeth ar gyfer ei brosesu, ond mae pris llaeth i brynwyr manwerthu wedi aros yn gyson a heb gynyddu. Mae ffigurau'r Bwrdd Ymyrraeth am y flwyddyn gyfan hyd at ddiwedd mis Tachwedd yn dangos prinder o 287.6 miliwn litr ar broffil cwota cronnol o 9.3 biliwn litr;
- 9.112 miliwn litr yw cyfanswm y llaeth a gyhyrchir yn y DU yn ystod y flwyddyn gwota;
- Paratowyd Prosbectws Llaeth gan y WDA er mwyn denu mewnfuddsoddwyr yn y diwydiant prosesu llaeth i Gymru. Fe'i lansiwyd yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ar 25 Gorffennaf;
- Mae'r Prosbectws hefyd yn edrych ar gyfleoedd i broseswyr sydd yng Nghymru yn barod ddatblygu cynnyrch a mentrau marchnata newydd, un ai ar eu pennau eu hunain neu mewn partneriaethau, a chyfleoedd iddynt weithio ar y mentrau newydd hyn gyda mewnfuddsoddwyr sy'n ceisio sefydlu eu hunain yng Nghymru;
- Fel rhan o'r dilyniant i'r Prosbectws, comisiynwyd y Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol (ADAS) i ymchwilio i ddatblygiadau yn y diwydiant llaeth mewn lleoedd eraill yn y DU ac Iwerddon, ac i nodi cwmnïau mewnfuddsoddi yn y diwydiant llaeth;
- O ganlyniad, mae Cyfarwyddfa Fwyd y WDA wedi cysylltu â deuddeg cwmni fel partneriaid mewnfuddsoddi posibl, ac y mae mewn dialog adeiladol gyda thri o'r rhain fel buddsoddwyr posibl. Mae'r ymholiadau wedi datblygu i wahanol raddau ar hyn o bryd: mae un wedi datblygu i ymweliadau i safleoedd posibl, argraffiadau drafft cyntaf gan arlunydd a datblygu cynlluniau busnes; tra bo'r ddau arall yn dal ar y cam trafodaethau;
- Mae adran ryngwladol y WDA yn siarad ag wyth cwmni pellach a enwyd yn yr adroddiad.

## CYFARFODYDD GYDAG ARCHFARCHNADOEDD A'R SECTOR LLAETH

### Christine Gwyther AC a Rhodri Glyn Thomas AC

| | |
|---|---|
| Sainsbury ccc | Mis Mai 2000 |
| Safeway ccc | Mis Mai 2000 |
| Unigate ccc | Mis Mai 2000 |
| Tesco ccc | Mis Mehefin 2000 |

### Gweinidogion

| | | |
|---|---|---|
| Christine Gwyther | West Wales Milk Producers | Mis Rhagfyr 1999 |
| Christine Gwyther | ACC Llandyrnog | Mis Gorffennaf 2000 |
| Christine Gwyther | ACC Llangadog | Mis Gorffennaf 2000 |

| | | |
|---|---|---|
| Carwyn Jones | Horizon | Mis Gorffennaf 2000 |
| Carwyn Jones | Llanboidy Cheesemakers | Mis Gorffennaf 2000 |
| Carwyn Jones | Hufenfa De Arfon | Mis Medi 2000 |
| Carwyn Jones | ACC Llangadog | Mis Medi 2000 |
| Carwyn Jones | Aeron Valley Cheese | Mis Medi 2000 |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Calon Wen Organic Milk Co-op | Mis Ionawr 2000 |
| Organic Milk Producers | Mis Chwefror 2000 |
| ACC Llandyrnog | Mis Chwefror 2000 |
| ACC (ym Mharc Cathays) | Mis Mawrth 2000 |
| Heritage Cheese | Mis Ebrill 2000 |
| Organic Milk Society of Wales | Mis Mai 2000 |
| OMSCO | Mis Mai 2000 |
| Dairy Industry Federation | Mis Mai 2000 |
| Roil Foods | Mis Mehefin 2000 |
| Hufenfa De Arfon | Mis Mehefin 2000 |
| ACC Llangadog | Mis Mehefin 2000 |
| Axis | Mis Gorffennaf 2000 |
| Ash Manor Cheese | Mis Gorffennaf 2000 |
| Aeron Valley Cheese | Mis Medi 2000 |
| Hufenfa De Arfon | Mis Hydref 2000 |
| Ash Manor Cheese | Mis Rhagfyr 2000 |

**Ar y gweill – Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Aeron Valley Cheese | Mis Rhagfyr 2000 |
| Abergavenny Fine Foods | Mis Rhagfyr 2000 |